

CHWERTHIN A CHWYSU - A DIFERYN O WIN!

Argraffiadau o'r Cwrs Gosod yn Llandrindod gan HUW FOULKES

A minnau wedi bod â'r bwriad o fynd ar y cwrs gosod ers dwy flynedd, daeth yr amser eleni i wireddu hynny. Gydag wythnos yn unig i fynd cyn y byddwn yn cyflwyno fy mhortffolio MA yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a minnau'n bell o fod wedi cwblhau fy nramâu, mynd tua Llandrindod fu fy hanes! Fi a Mari Watkin yn gwmni yn y car o'r ddinas fawr ddrwg. Cyrraedd a chael ein croesawu gan frenhines y byd cerdd dant - Haf Morris - a'i balchder hithau'n amlwg ein bod wedi cyrraedd yn barod am benwythnos o osod! Grêt oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd ar y cwrs, yr ystod oedran yn amrywio ond pawb yn cymdeithasu a mwynhau!

Cafwyd sgwrs arbennig o ddiddorol gan Leah Owen ar y nos Wener a'r clipiau fideo yn ychwanegu at y cyflwyniad. Daeth tri o'r gloch y bore a phedwar ohonom ar ôl yn y bar. Dyma benderfynu mynd am y ciando a ninnau ddim cweit yn siwr beth i'w ddisgwyl y bore canlynol. Bu'r dydd Sadwrn yn llawn sbort - pawb â'u hallweddellau a'u clustffonau yn gweithio'n ddiwyd ar wahanol osodiadau. Pawb yn hymian eu cyfalawon yn un medli cerdd-dantaidd drwy'r gwesty! O fewn y diwrnod, roeddwn wedi cwblhau'r targed - gosod fy unawd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2010.

Roedd nos Sadwrn yr un mor hwyliog - pawb yn canu yn y lolfâ gydag Arfon Williams a Dylan Cernyw wrth y delyn! Aeth potel o win yn ddwy, yn dair, yn bedair ac am dri o'r gloch y bore dyma gael gwers telyn gan Nia Elain. Bar yn unig o Gelliwig a lwyddais i'w feistrolïo a fewn ryw awr.

Afraid dweud nad oedd llawer o siâp ar griw'r dosbarth meistr mewn chwarae telyn ar y bore Sul ond mentrais osod ar gyfer mwy nag un llais a hynny'n rhoi'r sbardun imi barhau â'r gwaith wedi'r cwrs. A dyna, am wn i, ydi prif fwriad y penwythnos blynyddol hwn - meithrin sgîl a chael yr hyder i'w datblygu ymhellach. A na, does dim rhaid ichi fod yn gwybod yr un gronyn am gerdd dant cyn cyrraedd gan fod y tiwtoriaid yn arbenigwyr yn eu maes. Diolch iddyn nhw - i Leah, Menna, Einir ac wrth gwrs, Haf am gydlynw'r cyfan mor drylwyr ac effeithiol.

Mi fydda' i yn bendant yn hysbysebu'r cwrs ymhlith ffrindiau dros y flwyddyn nesaf a does dim dwy waith y byddaf yno eto i fwynhau penwythnos llawn hwyl a chwerthin! Mae'r ffaith fod saith o'r rhai fynychodd y cwrs eleni o dan 25 oed yn adrodd cyfrolau.



Uchafbwynt y cyngerdd cyhoeddi ym Mangor: Côr Seiriol dan arweiniad Gwennant Pyrs yn canu'r Cywydd Croeso gan Ieuan Wyn, i gyfeiliant Y Glerorfa.

DECHRAU DA I WYL GLANNAU MENAI

Daeth cynulleidfâ gref i Neuadd Ysgol Friars, Bangor, ar Hydref 10 ar gyfer Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Glannau Menai, 2010. Roedd hi'n noson gyforiog o dalentau lleol: Côr Seiriol, Ysgol Glanaethwy, Hogia'r Ddwylan, Y Glerorfa, Dawnsyr Môn a Lucy Kelly. Yn arwain y noson roedd y darlledwr Rhun ap Iorwerth.

Roedd Menai Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol, wrth ei bodd. "Mae ymateb y gynulleidfâ heno yn dangos cymaint o frwdfrydedd sydd yn yr ardal o blaid yr ŵyl - a'r peth mwyaf calonogol ydi gweld cymaint o bobl ifanc yn cymryd rhan."

Gan fod llai o amser nag arfer ar gael i baratoi am Wyl Glannau Menai, mawr fu'r prysurdeb i gael y Rhestr

Testunau allan mewn pryd - ond fe lwyddwyd, ac fe fydd ar werth i bawb yng Ngŵyl Casnewydd, neu yn eich siop leol wedi hynny.

Yn ei Gywydd Croeso mae'r Prifardd Ieuan Wyn yn creu delwedd o "ddôr agored" - dôr sydd bob amser ar agor ac yn arwain i mewn i gaer sy'n hael ei chroeso, a lle mae gwledd arbennig wedi ei pharatoi: gwledd o ddiwylliant.

Ysgrifennydd y pwyllgor fydd Delyth Vaughan, Donna Hughes fydd y Trysorydd ac Arfon Gwilym fydd yr Is-Gadeirydd. Llywydd y Dydd fydd y Parch John Gwilym Jones.

Cynhelir yr ŵyl yn Neuadd Pritchard Jones, Prifysgol Bangor ar Dachwedd 13, 2010.

"BE' DWI'N GAEL OS DWI'N YMAELODI?"

- **Allwedd y Tannau** bob blwyddyn - cylchgrawn swmpus yn cynnwys cyfarwyddiadau a chanllawiau sut i osod testunau Eisteddfod yr Urdd
- **Y Cerdd Dantiwr** - ddwywaith y flwyddyn
- **Gwybodaeth gyson** am ddigwyddiadau (*os rhowch eich cyfeiriad ebost i'r Swyddog Gweinyddol, Sion Gwilym*)
- **Y fraint o gael cefnogi cymdeithas** ddiwyd a bywiog sy'n hybu'r diwylliant Cymraeg!

TELERAU ARBENNIG I BOBL IFANC: DIM OND £5!

(pawb sydd mewn addysg llawn amser)

TELERAU I BAWB ARALL : £10

Y CERDD DANTIWR



Bwletin Newyddion Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Rhif 3, Tachwedd 2009

Brwdfrydedd Casnewydd

Am y tro cyntaf yn ei hanes bydd yr Wyl Gerdd Dant yn ymweld â Gwent y mis hwn, ac mae cyffro mawr yn y gwynt.

Bydd yn uchafbwynt deunaw mis o baratoi i Elin Maher a'i chriw, mewn ardal lle mae cerdd dant yn rhywbeth dieithr i'r rhan fwyaf o bobl. "Fedrwn ni ddim cymharu'r ardal hon gyda rhywle fel Y Bala," meddai Elin, "ond mae'n rhaid i ni gychwyn yn rhywle. Plannu hadau yw'r nod - ceisio sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chlywed a bod y diwylliant yn cael ei weld fel rhywbeth byw a deinamig. Un rhan fach o'r jig-so mawr yw hyn yn y gwaith o hybu Cymreictod.

"Fedrwn ni ddim esgus fod trefnu'r ŵyl wedi bod yn hawdd - hyd yn oed ymhlith y Cymry Cymraeg mae gofyn i chi fod â diddordeb mewn llenyddiaeth i werthfawrogi cerdd dant. Ond un peth am bobl yr ardaloedd yma - fe wnan nhw roi cynnig ar bopeth. Roedd gen i grŵp yn canu'r cywydd croeso yn Y Rhyl y llynedd nad oedd erioed wedi canu yn Gymraeg o'r blaen, heb sôn am ganu cerdd dant!" meddai.



Elin Maher, Ysgrifennydd gweithgar Gŵyl Cerdd Dant Casnewydd, Tachwedd 14

Un bluen fawr yn het yr ŵyl yw fod wyth o gorau cerdd dant wedi cofrestru eu henwau, felly gallwn edrych ymlaen at uchafbwynt gwerth chweil.

"Mae'r enwau yn adran y Delyn hefyd yn arbennig o dda, ac mae ysgolion cynradd lleol yn ogystal â rhai ymhellach i ffwrdd wedi ymateb yn wych iawn," meddai Elin.



Bydd enillwyr cystadlaethau'r ŵyl yng Nghasnewydd yn derbyn y tlws trawiadol hwn o waith y gof dawnsus o Gaerdydd, Nia Jones - tlws sy'n adlewyrchu cefndir diwydiannol y rhan hon o Gymru.

CYRRAEDD THEATR GLAN YR AFON

- Mae'r theatr o fewn pellter cerdded i'r orsaf drên a'r orsaf fysiau.
- Bydd y Rhagbrofion ym Mhrifysgol Casnewydd yn Allt yr Yn.
- Ceir: does dim meysydd parcio wrth y theatr ei hun - bydd raid mynd i'r meysydd parcio cyhoeddus. Ceir manylion pellach a mapiau ar wefan Casnewydd: www.newport.gov.uk a mynd i'r dudalen dwristiaeth.

GŴYL DYFFRYN CLWYD YN TORRI POB RECORD

Mae'r Gymdeithas yn ffodus iawn bob blwyddyn o gael gweithwyr dygn i drefnu'r Wyl mewn gwahanol rannau o'r wlad. Yn naturiol, mae rhai ardaloedd yn fwy lwcus na'i gilydd o ran adnoddau. Ardal felly yw Dyffryn Clwyd, ac fe gafwyd gŵyl hynod o lwyrchus yn Y Rhyl flwyddyn yn ôl. Y canlyniad oedd elw o £31,000 - yr elw mwyaf a wnaed erioed gan unrhyw ŵyl.

"Caffaeliad mawr oedd cael Leah Owen yn y gadair. Os oedd Leah yn dweud roedd pawb yn gwneud!"

meddai'r Trefnydd Gwyliau, Dewi Jones. Wrth longyfarch pobl Dyffryn Clwyd ar eu llwyddiant, diolchodd yn arbennig i Gyngor Sir Ddinbych ac Ynni Gwynt Cymru am eu nawdd. Bydd Ynni Gwynt Cymru yn noddi eto eleni.

Bydd y rhan fwyaf o'r elw yn mynd i goffrau'r Gymdeithas yn ganolog, i fod wrth gefn os bydd colledion ariannol mewn ardaloedd 'anoddach' yn y dyfodol. "Mae'n bwysig fod cerdd dant yn cyrraedd pob rhan o Gymru," meddai Dewi.



Y gacen penblwydd - a baratowyd ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol gan Margaret Hughes. Mae'r aelodau hynny a gafodd ddarn ohoni wedi cael braint arbennig!

Y Gymdeithas Cerdd Dant ar y we: www.cerdd-dant.org

O'R CYFARFOD BLYNYDDOL

Adroddiad y Cadeirydd, Nia Tudur BLWYDDYN Y DATHLU

Do, mi fu hi'n flwyddyn fawr yn hanes y Cerdd Dantwyr – blwyddyn o ddathlu penblwydd arbennig Cymdeithas Cerdd Dant Cymru! Mae cyrraedd 75 mlwyddiant yn dipyn o garreg filltir i unrhyw gymdeithas, ac yn achos y gymdeithas hon, mae'r gweithgarwch a'r brwdfrydedd yn dal i fod mor gryf ag erioed.



Gyda phob dathliad, mae'n rhaid wrth gwrs cael digwyddiadau arbennig i nodi'r achlysur, ac mae sawl uchafbwynt wedi bod yn ystod y flwyddyn. Un o'r rheiny heb os oedd nos Sadwrn, Mehefin 27ain, pan wireddwyd breuddwyd Bethan Bryn o berfformio 'Dan y Wenallt' ar Gerdd Dant – a hynny o flaen cynulleidfifa gref yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth. Does dim amheuaeth bod Bethan wedi cyflawni campwaith, ac roedd yn amlwg o'r ymateb a gafwyd gan y gynulleidfifa bod pawb yn cytuno. Yn sicr, fe gafodd y 90 o gantorion o bob cwr o Gymru wefr yn cymryd rhan yn y perfformiad unigryw, a diolch o galon i Bethan ac i gwmni Arad Goch am eu gwaith caled – noson i'w chofio yn wir!

Roedd hi'n addas iawn mai yn Y Bala y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni – gan mai yno hefyd, 75 mlynedd yn ôl, y cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf a arweiniodd at sefydlu'r Gymdeithas Cerdd Dant – lle perffaith felly i ddathlu'r Penblwydd!

Roedd hi'n braf iawn clywed a gweld yr hen grefft yn cael cymaint o sylw yn ystod wythnos y Brifwyl – gan gynnwys ymysg pethau eraill berfformiad y Côr Cerdd Dant Meibion Unedig yn y cyngerdd agoriadol, rhaglen o Farddoniaeth Gerallt Lloyd Owen ar Gerdd Dant yn y Babell Lân, a chyfle arall i fwynhau 'Dan y Wenallt'.

Cafwyd arbrawf llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod eleni hefyd – lle cyfunwyd stondinau sawl cymdeithas werin, gan gynnwys y Gymdeithas Cerdd Dant, o fewn un uned fawr o'r enw Tŷ Gwerin! Roedd yn gyfle i greu pabell oedd yn llawn bwrlwm – gyda digon o gerddoriaeth a chyfle i sgwrsio yn ystod yr wythnos.

Mae'n rhaid i bod cymdeithas wrth gwrs

symud yn ei blaen a datblygu, ac mae yna gryn newid wedi bod dros y misoedd diwethaf o ran gweinyddiaeth y Gymdeithas. Mae Dewi Jones bellach yn canolbwyntio ar drefnu'r Wyl Gerdd Dant flynyddol. Golyga hyn ein bod wedi croesawu aelod ychwanegol i'r tîm, sef ein Swyddog Gweinyddol newydd - Sion Gwilym Jones o Lansadwrn, Ynys Môn. Mae gan Sion ddiddordeb mawr yn nhraddodiadau gwerin Cymru, ac mae eisoes wedi hen setlo yn ei swydd newydd!

Os oes unrhyw un yn amau dyfodol y traddodiad Cerdd Dant, yna byddai ymweliad â'r Cwrs Gosod blynyddol eleni heb os wedi tawelu'r amheuon rheiny! Torrwyd pob record, gyda 18 o fyfyrwyr yn mynychu'r Cwrs yn Llandrindod yn mis Medi. Roedd yna drawsdoriad eang o ran ardaloedd, cefndir cerddorol ac oedran y myfyrwyr, ac o dan arweiniad medrus Haf Morris, Menna Thomas, Einir Wyn Jones a Leah Owen cafwyd hwyl ar y gosod, a thipyn o hwyl yn ystod y gweithgareddau cymdeithasol hefyd yn ôl pob sôn!

Rydym yn awr wrth gwrs yn troi ein golygon tuag at yr Wyl Gerdd Dant yng Nghasnewydd. Rwy'n gwybod bod yna griw brwdfrydig yn yr ardal wedi bod yn paratoui ac yn lleadaenu'r neges bod yr Wyl yn dod i'r ddinas! Mae Theatr Glanrafon yn lleoliad arbennig, ac o gofio pa mor llwyddiannus fu noson y cyhoeddi ym mis Hydref y llynedd, rwy'n siwr y bydd yna fwrwm mawr eto ar Dachwedd y 14eg, gan roi clo teilwng i flwyddyn y dathlu!



Y criw a fu'n diddanu yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llandegfan: o'r chwith, Gwenan Gibbard, Sion Gwilym, Margaret Hughes (o'r ddeuawd adnabyddus Pat a Margaret), leuan ap Sion, Marek Williams, Haf Morris (Llywydd) a Rhys Meilir.

ARIAN WRTH GEFN: "SEFYLLFA GREF"



Wrth gyflwyno ei adroddiad olaf fel Trysorydd, disgrifiodd Gareth Williams flwyddyn ariannol 2008/9 fel "blwyddyn dderbyniol unwaith eto". Ond roedd ganddo rybudd yr un pryd. Mae'r swm ychwanegol sydd gan y Gymdeithas wrth gefn eleni yn cyfateb yn fras i'r taliad a ddaw gan S4C am yr hawl i ddarlledu'r wyl. "O golli hwn, elw llai neu golled o'r gwyliau, ac o ystyried y costau ychwanegol o gyflogi dau swyddog, fe allai'r sefyllfa fod yn wahanol yn y dyfodol," meddai. "Ond o warchod a gwario yr hyn sydd wrth gefn yn ddeallus er budd dyfodol y Gymdeithas, mae hi'n sefyllfa gref." Wrth ddyuno'n dda i'w olynydd, apeliodd am gefnogaeth a pharch i swydd y Trysorydd a'i chyfrifoldebau. Galwodd ar y Gymdeithas i wynebu ei chyfrifoldeb fel Elusen a gweithredu yn fwy tryloyw.

CAEL EI DRAED 'DANO

Wrth gyflwyno adroddiad am ei dri mis cyntaf fel Swyddog Gweinyddol, diolchodd Sion Gwilym i bawb am eu croeso a'u cymorth, yn enwedig yn Eisteddfod Y Bala. "Does gen i ddim dwywaith bod yma gasgliad o unigolion gweithgar sydd â gwir angerdd at Gerdd Dant, a thrwy ddod at ein gilydd a chydweithio fel tîm, dwi'n berffaith siŵr bod dyfodol llewyrchus i'r Gymdeithas, ac i'r grefft," meddai.



Menai Williams a Carys Jones ar ddyletsywydd yn y Tŷ Gwerin

Prysurdeb Y Bala



Dylan Cernyw a Lois Eifion yn ymarfer yn y Tŷ Gwerin

Wythnos gofiadwy Dan Puw

Bydd Eisteddfod Y Bala 2009 yn aros yn hir yn y cof i lawer ohonom, ond i un yn arbennig – Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd Dant lleol, Dan Puw. "Mi aeth popeth yn arbennig o dda dwi'n meddwl - dim trafferthion na helynt hyd y gwn i. Oherwydd prysurdeb yr wythnos i mi'n bersonol, glywais i mo'r cystadlu i gyd, ond dwi wedi clywed canmol mawr o bob cyfeiriad. "I mi, un o'r uchafbwyntiau oedd y rhaglen deyrnged i Gerallt Lloyd Owen, oedd yn llawn o gyflwyniadau byr a diddorol, a'r cyfan wedi ei roi at ei gilydd efo graen gan Elfyn Pritchard. "Hefyd wrth gwrs, roedd hel y Côr Unedig cerdd dant at ei gilydd at y cyngerdd agoriadol, a'u harwain nhw, yn brofiad y byddai yn ei drysori. Nid yn aml mae rhywun yn cael arwain côr o 120! "Dwi'n edrych ymlaen yn barod at y Steddfod nesa yn Y Bala!"



Helo Helo! Dirpwy Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, Clive Wolfendale, yn chwythu ei bibgorn

Enillwyr Cystadleuaeth "Be mae o'n ddeud?" (o Eisteddfod Y Bala)



Gwobr gyntaf i:
"Yli, Bethan Bryn, tria di ganu penillion yn dy byjamas!"



Cydradd gyntaf i:
"Wicend dwythfa, mi ddalies i bysgodyn cymaint â hyn, efo gwyneb fel hyn..."
ac
"Oeddau nhw allan i fan hyn pan o'n i'n disgwyl!"

Roedd pawb wedi cystadlu yn ddi-enw, felly mae'r wobwr yn cael ei chadw gan y pwyllgor!!

Y CERDD DANTIWR

Penderfynwyd bellach ceisio cynhyrchu hwn ddwywaith y flwyddyn hyd y bo modd, a'i anfon allan yn y post i bob aelod yn ogystal â'i ddsbarthu yn yr Wyl a'r Eisteddfod i bobl sydd heb fod yn aelodau. Os oes gan unrhyw un bwt o newyddion o'r byd cerdd dant, cysylltwch ar bob cyfrif! Ac mae croeso hefyd i unrhyw sylwadau.

Tŷ GWERIN YNG NGLYN EBWY?

A oedd yr arbrawf o rannu pabell yn yr Eisteddfod gyda nifer o fudiadau traddodiadol eraill yn plesio? Bydd angen gwneud penderfyniad ynglŷn â 2010 yn fuan, felly byddai'r swyddogion yn falch iawn o gael eich barn chi fel aelodau. Rhowch wybod i ni er mwyn i ni fedru gwneud penderfyniad call!